



Grŵp Cynghori Arbenigol
Iechyd Meddwl
Colegau Brenhinol
Cymru

Diweddariad gweithgaredd

Mae'r grŵp yn dod â phartneriaid o bob rhan o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd a byddant yn gweithredu fel ffynhonnell cyngor arbenigol diduedd, wedi'i seilio ar dystiolaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Nod y grŵp hefyd yw sicrhau ffocws a dealltwriaeth fwy craff ar y gefnogaeth gyfredol ac angenrheidiol i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli gyda'n gilydd ym maes gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

The group brings together partners from across health and social care services and acts as a source of impartial, evidenced-based expert advice for Welsh Government, NHS Wales, Senedd Members and other stakeholders.

The group also aims to ensure a sharper focus and understanding on the current and necessary support for the people we collectively represent in social care and in primary, community, and secondary care mental health services.

Rhagair

“Rydym yn gyffrous i gyhoeddi ein trydydd adroddiad, ac mae wedi bod yn 12 mis cyffrous i iechyd meddwl yng Nghymru.

“Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ei strategaethau 10 mlynedd newydd ar gyfer iechyd meddwl a lles ac atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae'r strategaethau terfynol a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig i'w cyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Edrychwn ymlaen at weld y manylion terfynol ac rydym yn barod i gefnogi eu rhoi ar waith mewn cydweithrediad ag eraill.

“Mae Llywodraeth newydd y DU wedi datgelu ei Bil Iechyd Meddwl, gan gyhoeddi diwygiadau hir-ddisgwyliedig i ddeddfwriaeth iechyd meddwl sydd wedi dyddio. Edrychwn ymlaen at graffu ar y cynigion wrth iddynt wneud eu ffordd drwy Senedd y DU a phan fyddant yn dod gerbron Senedd Cymru. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth newydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol yng Nghymru.

“Yn dilyn cyflwyno'r Bil Iechyd Meddwl yn San Steffan, ni fydd Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru) yn cael ei ddwyn ymlaen drwy'r Senedd. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith ar y Bil wedi bod yn ofer. Mae ei ddatblygiad wedi gosod sylfaen bwysig ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a fydd yn gwella profiadau, ac yn grymuso, cleifion iechyd meddwl yng Nghymru. Byddwn yn mynd ar drywydd y diwygiadau hyn ein hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru.

“Mae'r misoedd nesaf felly'n cynrychioli moment arwyddocaol i dirwedd iechyd meddwl yng Nghymru. Yn sail i hyn oll, ac yn hollbwysig, mae ein gweithlu.

“Mae dwy flynedd bellach ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithle Iechyd Meddwl Strategol. Ni allai'r angen i fonitro'r strategaeth, sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r dirwedd bolisi sy'n newid yn barhaus a'i bod yn ateb y galw ar wasanaethau fod yn fwy. Fodd bynnag, mae'r diffyg ymgysylltu â'r Grŵp ac aelodau unigol ar werthusiad blwyddyn 1 o'r cynllun wedi bod yn achos rhwystredigaeth. Gobeithiwn y bydd modd cywiro hyn mewn adolygiadau yn y dyfodol.”

Ollie John
Cadeirydd y Grŵp



Y flwyddyn hon

Mae Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru wedi ymuno â ni, a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, gan fynd â'n haelodaeth i 12 o sefydliadau ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymdeithasol.

Rhoesom dystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i Gyflyrau Cronig. Mae'n wych bod y grŵp yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel hyn.

Rydym yn parhau i gael cynrychiolaeth ar sawl grŵp cynghori sylweddol:

- o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Gyflyrau Niwroddatblygiadol
- o Bwrdd Gweithredu Cynllun Gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- o Bwrdd Rhaglen Strategol Gweithrediaeth y GIG ar gyfer Iechyd Meddwl

Fe wnaethom gefnogi creu grŵp newydd 'Cydwethredfa Iechyd Plant Colegau Brenhinol Cymru' (WRCCHC) sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'r grŵp hwn yn cael ei gynnal gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.



Dros y 12 mis nesaf

Bydd y grŵp yn canolbwyntio mwy ar ofal dementia, gyda'r bwriad o lywio'r adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Dementia.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i ffocws cynyddol ar niwroddatblygiad, gan gynnwys llywio a chraffu ar y camau a gymerir i fynd i'r afael â'r amseroedd aros am asesiad.

Mae gweithredu'r cynllun hirdymor newydd ar gyfer iechyd meddwl a llesiant yn cynnig cyfle i roi parhad, yn ogystal â chadarnhau gweledigaeth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

Fel grŵp, rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod fersiynau o'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl yn y dyfodol yn gwerthfawrogi rôl proffesiynau ar draws y sector, a bod y gweithlu hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu strategaethau cyfredol ac yn y dyfodol.

Mae cyfle sylweddol i alinio ein deddfwriaeth iechyd meddwl bresennol a newydd yn well, a sicrhau bod diwygio a gweithredu yn seiliedig ar hawliau ac yn gyraeddadwy.

Rydym wedi mynegi'r meysydd ffocws hyn, ochr yn ochr â'n rhaglen bresennol, i Lywodraeth Cymru.



Manylion cyswllt

Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
Coleg Brenhinol Meddygon Teulu
Coleg Brenhinol y Meddygon
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Coleg Nyrsio Brenhinol
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
Coleg Brenhinol y Bydwagedd
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain
Cymdeithas Seicolegol Prydain
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Cadeirydd y Grŵp

caroline.walters@rcslt.org
david.davies@rcot.co.uk
scarlett.carpenter@rcgp.org.uk
emily.wooster@rcp.ac.uk
dafydd.huw@rcpsych.ac.uk
nicholas.unwin@rcn.org.uk / ben.thomas@rcn.org.uk
sarah.williamson@rcpch.ac.uk
iwan.hughes@rpharms.com
julie.richards@rcm.org.uk
samantha.baron@basw.co.uk
manel.tippett@bps.org.uk
higginsc@csp.org.uk

oliver.john@rcpsych.ac.uk

Gwaith celf

Hei Meddyliau - Gathering Thoughts & Minds

Tua chant o ddelweddau yn seiliedig ar atebion i 'Sut y'ch chi'n gweld y meddwl a dulliau o gyfathrebu?'

Around a hundred images based on answers to 'How do you see the mind and ways of communicating?'

rhysbevanjones.com